Brenin yr Adar

Gonestrwydd

Daeth adar y goedwig i gyd at ei gilydd. Pwy oedd yn mynd i fod yn frenin arnyn nhw? Hwn oedd y cwestiwn pwysig.
"Sut ydan ni'n mynd i ddewis ein brenin?" gofynnodd robin goch.
"Beth am i ni ddewis yr un sy'n gallu hedfan bellaf", meddai colomen y coed.
"Na" meddai aderyn y to, "beth am ddewis yr aderyn sy'n gallu hedfan gyflyma'".
O gwr y goedwig daeth y paun balch.
"Rydw i yn credu mai'r aderyn prydfertha ddylai fod yn frenin arnom," meddai'r paun gan ysgwyd ei gynffon liwgar.
"O na'n wir" meddai'r eos, "beth am yr aderyn sy'n gallu canu orau. Fo ddylai fod yn frenin yr adar."
"Yr aderyn cryfaf ddylai fod yn frenin," rhuodd yr eryr o ben y graig.
Yn y goeden dderw gerllaw, 'roedd y dylluan yn gwrando'n astud ar gleber yr adar. 'Roedd hi'n edrych mor ddoeth.
"Beth am i ni ofyn i'r dylluan ddewis brenin i ni," meddai'r adar i gyd gyda'i gilydd.
Daethant i gyd ar gangen y goeden dderw. Edrychodd yr hen dylluan arnyn nhw ag un lygaid. Caeodd y llygaid arall ac meddai, "yr aderyn sy'n hedfan uchaf ddylai fod yn frenin....Tw wit, tw hw, Tw wit tw hw."
Meddyliodd y dryw bach. "Mae'n nhw'n meddwl fod y dylluan frech yn ddoeth ond mi ydw i yn ddoethach na nhw i gyd. Mi ydw i yn gwybod pa aderyn all hedfan uchaf."
Dechreuodd chwerthin yn ddistaw bach..
Ymhen dim 'roedd yr adar i gyd yn paratoi ar gyfer yr ornest.
"Un...dau...tri... i ffwrdd â chi" meddai'r dylluan ddoeth.
I fyny ac i fyny yr aethon nhw. Yn uwch ac yn uwch ac yn uwch. 'Roedd yr adar bach yn dechrau blino. O un i un roedden nhw'n dechrau dod yn ôl i lawr i'r ddaear. Dim ond yr

ehedydd a'r eryr oedd yn dal i hedfan, yn uwch ac yn uwch. Ni allai'r ehedydd fynd yn uwch, ond 'roedd yr eryr yn dal i hedfan yn uwch ac yn uwch i'r awyr las.
Dechreuodd yr adar ar lawr y goedwig weiddi gyda'i gilydd, "Yr eryr ydi'n brenin! Yr eryr ydi brenin yr adar!" Ymhen dim amser 'roedd wedi dod i lawr o'r entrychion i'r ddaear. Dyna pryd y gwelwyd fod dryw bach wedi aros ar ben y eryr drwy'r amser.
"Y fi ydi brenin yr adar" meddai'r dryw bach, "fe es i'n uwch na'r eryr hyd yn oed."
Doedd yr adar eraill ddim yn gwybod beth i'w ddweud na beth i'w wneud. Fe aethon nhw'n syth at y dylluan frech.
Edrychodd y dylluan yn ddoeth a chaeodd un llygaid. Ar ôl meddwl yn ofalus, dywedodd, "Wnaeth y dryw ddim hedfan o gwbl dim ond cael ei gario gan yr eryr. Felly yr eryr ydi brenin yr adar. Nid yn unig fe hedfanodd yn uwch na'r adar eraill i gyd ond fe gariodd aderyn arall ar ei ben."
"Hwre, hwre" chwarddodd yr adar eraill i gyd. "Yr eryr ydi brenin yr adar."
Diflanodd y dryw bach o'r golwg i'r perthi. 'Roedd o'n credu ei fod yn ddoethach na'r dylluan frech. Hyd heddiw, hedfan yn isel yn y perthi mae'r dryw bach. Yno yn y gwrych yn hedfan yn isel, mae'n hoffi bod.

O Dduw, gwna fi'n blentyn gonest, bob amser. Amen.

✦ Gwnewch restr o'r holl adar sy'n cael eu henwi yn y stori.
✦ Ydych chi'n meddwl fod y dryw bach wedi twyllo'r adar eraill I gyd?